**CYTUNDEB SWMPGYFLENWI WATER UK**

**AMODAU ARBENNIG (ARGRAFFIAD CYNTAF)**

**Diffiniadau**

| | | |
|---|---|---|
| Amcangyfrif o’r Cyfraniad at y Cysylltiad | £[*rhif*] | Ni chymhwyswyd yr amod |
| Atodiad | Yr atodiad priodol i’r cytundeb hwn sy’n gysylltiedig â’r Amodau Arbennig yma, sef:<br>1. Y Plan a’r Pwynt Cyflenwi;<br>2. Y Protocol Cysylltu<br>3. Y Protocol Ansawdd Dŵr | Yr atodiad priodol i’r cytundeb hwn sy’n gysylltiedig â’r Amodau Arbennig yma, sef:<br>1. Y Plan a’r Pwynt Cyflenwi;<br>2. Y Protocol Cysylltu<br>3. Y Protocol Ansawdd Dŵr |
| Cwmni Dŵr | *[enw]* | Dŵr Cymru Cyfyngedig |
| Cyfradd Llif Uchaf | litrau'r eiliad adeg galw brig [*i’w addasu mewn ffordd debyg i’r Galw Uchaf lle bo angen*] | [ ] litr yr eiliad adeg galw brig |
| Cynllun | Y plan a nodir yn Atodiad 1. | Y plan a nodir yn Atodiad 1. |
| Cysylltiad Dros Dro | [*i’w ddefnyddio dim ond wrth fabwysiadu cymal opsiynol D*] Y pwynt[iau] a ddynodir ag “A” [*a*][*neu*] “B” ar y Cynllun | Ni chymhwyswyd yr amod |
| Dyddiad Adrodd | Ym mhob blwyddyn [y [diwrnod cyntaf][15fed][diwrnod olaf] o bob mis calendr) [[1 Ionawr] [1 Ebrill] [1 Gorffennaf] [1 Hydref]] | Ar ddyddiad y cysylltiad, ac o hynny ymlaen ar 30fed ddiwrnod Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr hyd ddyddiad Terfynu’r Datblygiad. |
| Dyddiad Codi Tâl | Ym mhob blwyddyn [*y* [*diwrnod cyntaf*][*15fed*][*diwrnod olaf*] *o bob mis calendr]* [[*1 Ionawr*] [*1 Ebrill*] [*1 Gorffennaf*] [*1 Hydref*]] | Diwygiwyd yr amod i: Cyn pen 5 Diwrnod Busnes ar ôl diwrnod 1af pob mis calendr |
| Dyddiad Darllen y Mesurydd | Ym mhob blwyddyn [y [diwrnod cyntaf][15fed][diwrnod olaf] o bob mis calendr) [[1 Ionawr] [1 Ebrill] [1 Gorffennaf] [1 Hydref]] | Diwrnod busnes 1af pob mis calendr |
| Dyddiad Terfynu’r Cysylltiad Dros Dro | [*Dyddiad cwblhau’r Cysylltiad ym Mhwynt Cysylltu A] [Dyddiad meddiannu unrhyw eiddo o fewn Cam 1 (fel a ddangosir ar y Plan*) | Ni chymhwyswyd yr amod |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | [*28 diwrnod ar ôl i'r Cwmni Dŵr gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r Penodai Newydd yn hynny o beth*] [*1 Ionawr 2030*] | |
| Galw Uchaf | [*nifer*]$m^3$ y dydd, yn amodol ar uchafswm blynyddol o [*nifer*]$m^3$ y flwyddyn [*addaswch hyn lle mae yna sawl pwynt cysylltu, er enghraifft "…wrth y pwynt cysylltu a ddynodir ag 'A' … a … wrth y pwynt cysylltu a ddynodir â 'B'"*][*o dan rai amgylchiadau, gallai fod yn briodol mynegi'r Galw Uchaf ar lefel uwch neu is ar bwyntiau sbardun priodol, er enghraifft "x* $m^3$ *wrth y pwynt cyflenwi a ddynodir ag 'A' tan y Dyddiad pan ddaw'r Cysylltiad Dros Dro i Ben a fesul* $m^3$ *o hynny ymlaen*] | [ ] $m^3$ y dydd, yn amodol ar uchafswm blynyddol o[ ] $m^3$ y flwyddyn. |
| Mesurydd | | Y Mesurydd a leolir yn [ ] |
| Penodai Newydd | *[enw]* | Enw |
| Protocol Ansawdd Dŵr | Mae'r trefniadau Protocol (gan gynnwys y Protocol Cyfathrebu sy'n rhestru'r personél cyswllt) mewn perthynas ag ansawdd dŵr ynghlwm yn Atodiad 3. | Mae'r trefniadau Protocol (gan gynnwys y Protocol Cyfathrebu sy'n rhestru'r personél cyswllt) mewn perthynas ag ansawdd dŵr ynghlwm yn Atodiad 3. |
| Protocol Cysylltu | Y manylion cysylltu ar gyfer y ddau barti fel a bennir yn Atodiad 2. | Y manylion cysylltu ar gyfer y ddau barti fel a bennir yn Atodiad 2. |
| Pwynt Cyflenwi | [*Ar gyfer un pwynt cysylltu*] Y pwynt rhyddhau a nodir ag "A" ar y Plan yw'r pwynt lle bydd y Cwmni Dŵr yn cyflenwi dŵr ar gyfer y Penodai Newydd o dan y Cytundeb hwn.<br><br>[*Ar gyfer sawl pwynt cysylltu*] Y pwyntiau cyflenwi a ddynodir ag "A", "B" ac "C" [*ac ati*] ar y Plan yw'r Pwyntiau lle bydd y Cwmni Dŵr yn cyflenwi dŵr ar gyfer y Penodai Newydd o dan y Cytundeb hwn. | I'w ychwanegu ar ôl cadarnhau'r pwynt cysylltu |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Pwynt Cyflenwi Amgen | [*i'w ddefnyddio dim ond lle mae cymalau opsiynol F neu G yn cael eu mabwysiadu*] Y Pwynt Cyflenwi amgen a nodwyd ar y Plan (os yw'n berthnasol) yw'r pwynt lle gall y Cwmni Dŵr ddarparu unrhyw bibellau Cyflenwi Brys neu Gyflenwi Wrth Gefn [*dylid addasu hyn lle bo Cysylltiad Dros Dro yn dod yn Bwynt Cyflenwi Amgen ar y Diwrnod pan ddaw'r Cysylltiad Dros Dro i Ben*] | Ni chymhwyswyd yr amod |
| Safle | [*enw'r safle*] fel a nodir ag ymyl coch ar y Plan | Datblygiad [ ] ar enw'r safle |
| Tâl Cyfeintiol | | Y pris fesul $m^3$ fel a bennwyd yn Nogfen Taliadau NAV y Cwmni Dŵr ar gyfer y flwyddyn o dan sylw. |
| Tâl Sefydlog | | Y tâl Dŵr fesul eiddo (y gyfradd sylfaenol llai'r didyniadau perthnasol) fel a bennir yn Nogfen Taliadau NAV y Cwmni Dŵr ar gyfer y flwyddyn o dan sylw. |
| Terfyn Uchaf y Datblygiad | [ ] eiddo preswyl [a [ ] eiddo dibreswyl | [ ] eiddo preswyl [a [ ] eiddo dibreswyl |

**Cymhwyso'r Amodau Cyffredinol**

Mae'r cytundeb hwn yn ymgorffori Rhan I (Cymalau Craidd) o Amodau Cyffredinol Cytundeb Swmpgyflenwi Water UK (Argraffiad Cyntaf) gyda'r diwygiadau a bennwyd yn amodau arbennig 1-5 isod.

1. Dylid diwygio'r diffiniad o reolau codi tâl fel a ganlyn:

   Y rheolau a wnaed gan yr Awdurdod sy'n berthnasol i'r Taliadau.

2. Caiff Cymal 14.1 o'r Amodau Cyffredinol ei ddiwygio fel a ganlyn:

   Rydym yn datgan trwy hyn na fydd dim o fewn y cytundeb hwn yn atal y *Cwmni Dŵr* na neb arall rhag cynnig cyflenwi dŵr i unrhyw berchennog neu ddeiliad safle o fewn y *Safle* naill ai ar ffurf gwasanaeth gan y *Penodai Newydd* neu'r *Cwmni Dŵr* neu unrhyw drydydd parti, ar yr amod bod cyfreithiau Cymru a Lloegr yn caniatáu cyflenwad o'r fath.

DRAFT

3. Caiff Cymal 28.1 o'r Amodau Cyffredinol ei ddiwygio fel a ganlyn:

   Caiff y cytundeb hwn ei lywodraethu gan gyfreithiau Cymru a Lloegr, a bydd hyn dan awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr.

Bydd Amod Arbennig 5 yn berthnasol hefyd:

4. <u>Trefniadau Talu NAV</u>

a) Taliadau seilwaith
   Bydd y *Cwmni Dŵr* yn cyhoeddi anfonebau ar gyfer Taliadau Seilwaith (ar gyfer eiddo newydd a gysylltir â Rhwydwaith Carthffosiaeth y *Penodai Newydd*) cyn pen 5 Diwrnod Busnes ar ôl y Dyddiad Adrodd.

b) Taliadau Swmp am Ddŵr - [i'w trafod]

   Cyhoeddir Anfonebau am Ddŵr Swmp cyn pen 5 Diwrnod Busnes ar ôl i'r darlleniad o'r Mesurydd ddod i law.

   - Codir Taliadau Cyfeintiol ar sail 95% o'r defnydd o ddŵr a gofnodwyd ar y Mesurydd; a
   - Bydd Taliadau Sefydlog yn seiliedig ar nifer yr eiddo a gysylltir fel y mae'r *Cwmni Dŵr* yn ei nodi ar y dyddiad Adrodd cyn Dyddiad y Taliadau.

Mae'n ymgorffori'r cymalau canlynol a gynhwysir yn Rhan II (Cymalau Opsiynol) Amodau Cyffredinol Cytundeb Swmpgyflenwi Water UK (Yr Argraffiad Cyntaf) hefyd.

F. <u>Rhannu Data o Gofnodwyr</u>

F1. Bydd y *Cwmni Dŵr* yn darparu data ar gyfer y *Penodai Newydd* o'r cofnodwr sy'n rhan o'r Mesurydd ar y fath ffurf neu o dan y fath delerau ac ar y fath amserau ag y cytunir rhyngddynt o bryd i'w gilydd.

<u>G. Amcangyfrif Cyfeintiol</u>

G1. Bydd y *Cwmni Dŵr*, gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddidwyll, yn amcangyfrif cyfaint y dŵr sy'n cael ei gyflenwi ar gyfer y *Penodai Newydd* ar gyfer y cyfnod sy'n dechrau ar ddyddiad darllen y Mesurydd yn unol â chymal 7.4 ac sy'n dod i ben ar ddiwedd y Cyfnod Taliadau priodol.

G2. Bydd y *Cwmni Dŵr* yn cyfrifo'r Taliadau'n unol â hyn ac yn eu cynnwys yn yr anfoneb a gyflwynir ar gyfer y Cyfnod Taliadau o dan gymal 10.9.

DRAFT

G3. Bydd y *Cwmni Dŵr* yn cyfrifo unrhyw Daliadau cysoni teg a chyfiawn yn erbyn y darlleniad o'r Mesurydd ac yn anfonebu ar gyfer y Cyfnod Taliadau canlynol.

DRAFT

**ATODIAD 1**

**Plan sy'n dangos y Safle a'r Pwynt Cyflenwi**

DRAFT

**ATODIAD 2**

**Protocol Cysylltu**

**<u>Gweithdrefnau Cysylltu ar gyfer Digwyddiadau Gweithredol</u>**

[I’w trafod a’u cymeradwyo]

**<u>Gwybodaeth Gyswllt</u>**

<u>Y Cwmni Dŵr</u>

| | | |
|---|---|---|
| Rheolwr y Contract | Lynnette Cross | |
| Digwyddiadau gweithredol yn ystod oriau busnes | Y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu<br>Dŵr Cymru Welsh Water<br>Blwch SP 3164<br>Caerdydd<br>CF30 0FF<br>Ffôn: 0800 260 5053<br>E-bost:<br>wholesaleservicecentre@dwrcymru.com | 0800 260 5053 |
| Digwyddiadau gweithredol y tu hwnt i oriau busnes | Y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu | 0800 260 5053 |

<u>Y Penodai Newydd</u>

| | | |
|---|---|---|
| Rheolwr y Contract | | |
| Digwyddiadau gweithredol yn ystod oriau busnes | | |
| Digwyddiadau gweithredol y tu hwnt i oriau busnes | | |

DRAFT

DRAFT

**ATODIAD 3**

**Protocol Ansawdd Dŵr**

**1. Cymhwyso, Pwrpas a Dehongliad**

1.1 Mae'r Protocol yma'n berthnasol i'r cytundeb(au) canlynol:

Dyddiad y cytundeb …

Partïon Gwreiddiol

**Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)** (y Cwmni Cyflenwi); a

…………………………………………………………… (Y Cwmni Derbyn)

Lleoliad/Enw'r Swmpgyflenwad

| Swmpgyflenwad | Parth Cyflenwi Dŵr DCWW | Parth Cyflenwi Dŵr y Cwmni Derbyn | Math o Gyflenwad | Cyflenwi GTD |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

1.2 Nid yw'r Protocol yn creu rhwymedigaethau cyfreithiol rhwymol nac yn diwygio'r cytundeb(au) uchod. Ei bwrpas yw pennu bwriadau'r partïon o ran cyfnewid gwybodaeth berthnasol am ansawdd dŵr.

1.3 Y bwriad yw y bydd y Protocol yn parhau trwy gydol y cytundeb(au) uchod, ond caiff ei adolygu gan y partïon o bryd i'w gilydd.

1.4 At ddibenion y protocol hwn, bydd i'r geiriau canlynol yr ystyron a bennir.

Ystyr 'Deddf' yw Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.

'Gwyriad Awdurdodedig' yw awdurdodiad a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliadau 20 a 21 i gyflenwi dŵr dros dro sy'n rhagori ar safon dŵr yfed pan nad oes unrhyw risg i iechyd pobl, a phan fo gwaith adfer yn cael ei gyflawni i wella ansawdd y cyflenwad.

Ystyr 'Swmpgyflenwi' yw cyflenwi dŵr yfed neu ddŵr anyfadwy gan y Cwmni Cyflenwi i'r Cwmni Derbyn o dan y Cytundeb(au) a enwir yn Adran 1 o'r Protocol hwn.

Ystyr 'Larwm Amddiffyn Mewnfa' yw larwm sy'n cael ei sbarduno a'i gyfleu i ystafell reoli trwy system monitro ansawdd dŵr awtomataidd sy'n cael ei

ddefnyddio i fonitro paramedrau penodol ffynhonnell dŵr wyneb i fyny'r llif o fewnfa'r gweithfeydd trin dŵr.

Ystyr 'Hysbysiad' yw hysbysiad a gyflwynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliad 28(4).

Ystyr 'Dŵr Yfed' yw dŵr y mae angen iddo fodloni safonau'r Rheoliadau.

Ystyr 'Rheoleiddiwr' yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed neu Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ystyr 'Rheoliadau' yw Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2018 (Cymru). Mae pob cyfeiriad at Rif Rheoliad yn ymwneud â'r Rheoliadau. Mae rheoliadau datganoledig mewn grym yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru.

'Asesiad Risg' yw asesiad o risg a wnaed o dan Reoliad 27.

Ystyr 'Adroddiad' yw adroddiad a gyflwynwyd o dan Reoliad 28.

Ystyr 'Cadwyn o'r Tarddle i'r Tap' yw ffynhonnell y Swmpgyflenwad, a, lle bo hynny'n berthnasol, y gronfa storio a ddefnyddir i storio dŵr crai, y gweithfeydd trin dŵr a defnyddir i drin y Swmpgyflenwad, y cronfeydd gwasanaeth a ddefnyddir i storio'r Swmpgyflenwad, ac unrhyw ran arall o rwydwaith cyflenwi cyflenwad dŵr y Cwmni Cyflenwi a allai gael effaith sylweddol ar ansawdd y Swmpgyflenwad ym marn y Cwmni Cyflenwi.

Ystyr 'Ymgymeriad' yw ymgymeriad a roddir gan y Cwmni Cyflenwi o dan ddarpariaethau Adran 19 o'r Ddeddf. Rhaglenni gwaith sy'n rhwymol yn gyfreithiol i gwmnïau dŵr ac sy'n cael eu cymeradwyo gan y Prif Arolygydd Dŵr Yfed i fynd i'r afael â phroblemau go iawn neu bosibl o ran ansawdd dŵr yw ymgymeriadau.

## 2 Asesiadau risg

2.1 Caiff y Swmpgyflenwad ei fanylu yn Asesiadau Risg ac Adroddiadau'r ddau barti.

2.2 Bydd y Cwmni Cyflenwi'n darparu manylion unrhyw raglenni monitro sy'n seiliedig ar risg sy'n berthnasol i'r Swmpgyflenwad (e.e. enwau'r plaladdwyr a aseswyd yn y ffynhonnell dŵr crai lle codir y Swmpgyflenwad) ar gyfer y Cwmni Derbyn fel y gellir cysoni rhaglenni monitro'r partïon lle bo hynny'n briodol.

2.3 Bydd y partïon yn cydweithio wrth ddarparu gwybodaeth Adrodd y gellir bod ei hangen yn rhesymol ar eu cyfer ei gilydd er mwyn cynnal a

diweddaru eu Hasesiadau Risg i'r fath raddau ag y bo hynny'n berthnasol i'r Swmpgyflenwad.

## 3 Cyfnewid Gwybodaeth

3.1 Bydd y Cwmni Cyflenwi'n darparu'r canlynol ar gyfer y Cwmni Derbyn:

i) copi o unrhyw Wyriad neu Ymgymeriad Awdurdodedig (gan gynnwys amserlen y gwaith), sy'n gysylltiedig â'r Swmpgyflenwad;

ii) copi o unrhyw ran berthnasol o Hysbysiad neu Adroddiad sy'n gysylltiedig â'r Swmpgyflenwad;

iii)manylion y Gadwyn o'r Tarddle i'r Tap, gan gynnwys unrhyw newidiadau materol i'r Gadwyn o'r Tarddle i'r Tap cyn iddynt godi (ac eithrio yn achos argyfyngau lle dylai'r Cwmni Cyflenwi hysbysu'r Cwmni Derbyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl cymryd y camau angenrheidiol); a

iv) y wybodaeth a bennir yn y trefniadau lleol (os yw'n berthnasol) y cyfeirir atynt yn yr Atodiad i'r Protocol hwn.

3.2 Bydd y Cwmni Cyflenwi'n rhannu gwybodaeth â'r Cwmni Derbyn ar bob cam o'r ffordd os ydyn nhw'n gofyn am Wyriad neu Ymgymeriad Awdurdodedig sy'n effeithio ar y Swmpgyflenwad neu os daw Hysbysiad sy'n effeithio ar y Swmpgyflenwad i law.

3.3 Bydd y naill barti'n hysbysu'r llall ac yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw un o'r pethau canlynol:

3.3.1 Mewn perthynas â Swmpgyflenwadau dŵr yfed, lle bo unrhyw amgylchiadau'n codi sydd wedi arwain at dorri amodau Rheoliad 4 (neu lle bo'r parti sy'n hysbysu'n credu bod yna risg sylweddol o dor-amod o'r fath) a allai effeithio ar y Swmpgyflenwad.

3.3.2 Mewn perthynas â Swmpgyflenwadau dŵr anyfadwy:

i) unrhyw newid sylweddol o ran ansawdd dŵr y mae'r parti sy'n hysbysu yn credu y gallai gael effaith ar y Cwmni Derbyn; a

ii) unrhyw Larymau Amddiffyn Mewnfa o bwys os yw'r Cwmni Cyflenwi'n clustnodi effaith bosibl ar ansawdd y Swmpgyflenwad.

3.3.3 Mewn perthynas â'r holl Swmpgyflenwadau

i) unrhyw ddigwyddiad sy'n dod i sylw'r Rheoleiddiwr, yr Awdurdod Iechyd

DRAFT

neu'r Awdurdod Lleol a allai effeithio ar y Swmpgyflenwad;

ii) newid sylweddol o ran nifer neu math y cysylltiadau gan gwsmeriaid am ansawdd dŵr lle mae'r asesiad yn clustnodi cysylltiad posibl â'r Swmpgyflenwad neu effaith arno;

iii) unrhyw broblem esthetaidd o bwys sy'n effeithio ar olwg, arogl neu flas ac y mae'r parti sy'n hysbysu'n credu y gallai gael effaith ar y Swmpgyflenwad neu y gellid ei phriodoli iddo;

iv) unrhyw waith cynlluniedig sy'n clustnodi effaith bosibl ar y Swmpgyflenwad;

v) unrhyw wybodaeth arall y mae'r parti sy'n hysbysu'n credu y mae ganddi'r potensial i effeithio'n sylweddol ar y Swmpgyflenwad.

## 4 Cyfathrebu

4.1 Cyflwynir pob hysbysiad a wneir o dan y Protocol yma dros y ffôn i gychwyn, a'i dilyn gan gyswllt trwy e-bost. Yr enwau cyswllt, y rhifau ffôn a'r cyfeiriadau e-bost fydd y rhai a bennir yn Nhabl 1, Atodlen 1, ac eithrio lle bo'r naill barti neu'r llall wedi darparu manylion cyswllt amgen.

4.2 Rhaid i gysylltiadau ffôn rhwng y partïon fod ar gael 24 awr y dydd;

4.3 Lle clustnodwyd problem o ran ansawdd dŵr a chyflwynwyd hysbysiad yn hynny o beth, dylid cynnal dialog parhaus rhwng y partïon mewn perthynas â'r effeithiau a'r camau adfer.

## 5 Rheoliad 15

5.1 Mae'r Cwmni Derbyn yn cydnabod gofynion Rheoliad 15 (Samplo: ffynonellau newydd) ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig sy'n cael eu cyhoeddi gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.

DRAFT

**Atodlen 1 - Trefniadau Lleol a Manylion Cyswllt**

**Asesiadau Risg**

Caiff DWSPs eu hadolygu'n ffurfiol yn flynyddol, neu pan glustnodir newid materol o ran y risg yn y gadwyn gyflenwi berthnasol. Byddai hynny'n cynnwys unrhyw newidiadau o bwys i'r rhaglen monitro plaladdwyr mewn dŵr crai cyn y flwyddyn adrodd nesaf.

**Paramedrau microfiolegol**

Cyflawnir cysylltiadau'r un diwrnod ar ôl canfod unrhyw baramedrau microfiolegol fel isod, a lle credir y gallai hynny effeithio ar y swmpgyflenwad. Byddai hynny'n cynnwys cadarnhad bod E.coli yn y cyflenwad dŵr terfynol o'r GTD, y gronfa ddŵr neu'r tŵr, y mae angen hysbysu DWI yn ei gylch.

**Digwyddiadau o ran Ansawdd Dŵr**

Cyflawnir cysylltiadau am unrhyw ddigwyddiad o ran ansawdd dŵr a allai effeithio ar y swmpgyflenwad, ac felly sy'n berthnasol i'r ardal sy'n uniongyrchol i fyny'r llif neu'n gyfagos â'r parth cyflenwi dŵr. Caiff y meini prawf hysbysu eu hadolygu'n flynyddol o ran ymwybyddiaeth ac er mwyn sicrhau bod pob parti'n cynnal ymateb cymesur o ran hysbysu yn seiliedig ar effaith.

**Cyfnewid data**

Caiff data ar berfformiad (atodlen 4) ei adolygu'n flynyddol rhwng y partïon.

Er mwyn caniatáu ar gyfer paratoi adroddiadau rheoliadol (e.e. adroddiadau rhagori a ffurflenni A19 chwe-misol) caiff y canlyniadau samplo perthnasol eu hanfon yn electronig. Mae data am fetaldehyd yn cael ei gyfnewid fel mater o drefn a hyn o bryd.

**Rheolaeth Weithredol**

Caiff diwygiadau i'r drefn ddiheintio yn y gweithfeydd cyflenwi eu cyfleu cyn i unrhyw newid ddod i rym. Cyfeirir at ofynion y cytundeb swmpgyflenwi yma yn y protocolau cynllunio brys lleol, a byddant yn cynnwys meini prawf hysbysu.

*(Er enghraifft, hysbysu os yw paramedr penodol wedi gwyro oddi wrth y lefel ddisgwyliedig (lle bo asesiad yn clustnodi effaith ar y Swmpgyflenwad), sbardunau ar gyfer paramedr a allai newid i lawr y llif o'r pwynt Swmpgyflenwi (e.e. nitrit), neu baramedrau nad ydynt yn ymddangos yn y Rheoliadau fel hydrocarbonau, Cryptosporidiwm. Dylai'r data a rennir gynnwys paramedrau ceidwadol ar gyfer monitro yn y pwynt cyflenwi.)*

DRAFT

**Manylion cysylltu**

**Tabl 1: Gwybodaeth gyswllt**

| Company | Amser | Enw / Tîm Cyswllt Ansawdd Dŵr | Rhif Ffôn ac E-bost |
|---|---|---|---|
| Cwmni Cyflenwi | Oriau Swyddfa (09:00 – 17:00) | | |
| | Y tu hwnt i oriau swyddfa (17:00 – 09:00) | | |
| Y Cwmni Derbyn | Oriau Swyddfa (09:00 – 17:00) | | |
| | Y tu hwnt i oriau swyddfa (17:00 – 09:00) | | |

**Llofnodion**

**Y Cwmni Cyflenwi, wedi ei Lofnodi ar ran DCWW**

Enw (Printiwch):

Swydd

Llofnod ______________________________

**Y Cwmni Derbyn, wedi ei Lofnodi ar ran**

Enw (Printiwch):

Swydd

Llofnod______________________________

DRAFT